



Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig

16 Gorffennaf 2020

Annwyl Mike

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf, ac am ystyriaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU, a'i argymhellion.

Gweler ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad yn Atodiad A.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y sefyllfa bresennol o ran ystyriaeth o'r Bil gan Senedd y DU a Senedd Cymru. Roedd y Bil yn cael ei ystyried gan bwyllgor bil cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin, ond cafodd eisteddiadau'r Pwyllgor eu gohirio ar 18 Mawrth nes clywir yn wahanol. Disgwylir bellach i'r Pwyllgor gyflwyno ei adroddiad erbyn dydd Mawrth 29 Medi. Ni chafwyd unrhyw ddiweddariad o ran pryd y bydd y broses graffu seneddol yn ailgychwyn mewn perthynas â'r Bil.

O ystyried yr ansicrwydd ynghylch amserlen Biliau'r DU, nid oes dadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi'i threfnu ar gyfer y Senedd ar hyn o bryd. Rwy'n disgwyl iddi bellach gael ei chynnal ar ôl toriad yr haf.

Yr eiddoch yn Gywir

Lesley Griffiths AS/MS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A

Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
Argymhelliad 1. Argymhellwn fod y Senedd yn cydsynio i ddarpariaethau Bil Amgylchedd y DU, os bydd yn fodlon ar ymateb y Gweinidog i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.	Derbyn Croesewir eich argymhelliad y dylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad. O'r 15 o argymhellion a wnaed gennych, bu modd i mi dderbyn 14. Mae un wedi'i dderbyn mewn egwyddor ac rwyf wedi nodi fy rhesymau dros hyn mor glir â phosibl. Goblygiadau Ariannol – Dim.
Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori ar gynigion a/neu reoliadau drafft cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil.	Derbyn Yn unol â'r Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n gywir ac yn briodol â'r rhai y mae'n debygol y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt, a'r rhai y bydd ganddynt fuddiant yn ei heffaith gyffredinol, cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil. Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod sefydliadau trydydd parti, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cael adnoddau priodol i gyflawni dyletswyddau neu gyfrifoldebau ychwanegol sy'n deillio o ddarpariaethau'r Bil hwn.	Derbyn Mae'r pwerau tracio gwastraff yn cynnwys darpariaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru greu cynllun codi tâl fel ffordd o adennill costau yr aethpwyd iddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau newydd mewn perthynas â'r maes hwn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a swyddogion gweinyddiaethau datganoledig eraill i fynd â'r prosiect tracio gwastraff hwn rhagddo ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Gyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi ei gyfraniad. Mae Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn cael eu dylunio ar sail yr egwyddor bod y llygrwr yn talu. Felly, bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr rhwymedig y mae'r cynlluniau'n ymdrin â nhw dalu ffi. Bydd angen i hyn gwmpasu ystod o elfennau gan gynnwys costau unrhyw gydymffurfiaeth a gwaith monitro angenrheidiol. Mae swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud yn llawn â'r gwaith o ddatblygu'r ddau gynllun ac yn datblygu modelau costio i sicrhau bod y costau a gaiff eu hadennill gan gynhyrchwyr yn adlewyrchu'r costau y

	<p>byddant yn mynd iddynt mewn unrhyw weithgarwch rheoleiddio.</p> <p>Mewn perthynas â Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunyddiau pecynnu, mae'r polisi'n pennu bod cynhyrchwyr yn talu'r costau net llawn ar gyfer casglu, trin a phrosesu deunyddiau pecynnu a ddefnyddiwyd. Lle bo Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am hyn, mae'r cynllun yn cael ei ddylunio i sicrhau y bydd yn talu costau'r gwasanaethau casglu gwastraff perthnasol.</p> <p>Mae darpariaethau'r Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff yn effeithio ar gwmnïau dŵr a Chyfoeth Naturiol Cymru. Caiff unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a roddir ar Gyfoeth Naturiol Cymru a'u goblygiadau o ran adnoddau eu hasesu'n ofalus yn erbyn ei gylch gwaith a'r rhwymedigaethau statudol, ac ymgynghorir â Chyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y broses. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo cyn hyn i ymgynghori ar unrhyw ofynion y cynigir eu rhoi ar Gyfoeth Naturiol Cymru a'r cwmnïau dŵr.</p> <p>Byddai'r pwerau mewn perthynas â draenio tir yn darparu pŵer gwneud rheoliadau er mwyn i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer pennu gwerth tir arall (nad yw'n amaethyddol) mewn ardal ddraenio fewnol yng Nghymru. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'r Byrddau Draenio Mewnol yn cyfrifo gwerth cyfraddau draenio ar gyfer tir nad yw'n amaethyddol gan ddefnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar restrau prisio hen ac anghyflawn.</p> <p>Bydd cydsynio i ddarpariaeth yn y Bil mewn perthynas â Chymru yn caniatáu i Gyfoeth Naturiol Cymru gyfrifo gwerth tir nad yw'n amaethyddol yng Nghymru gan ddefnyddio methodoleg amgen, gan y bydd yn gallu defnyddio data amgen ar gyfer y cyfrifiadau hyn. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn defnyddio methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth tir ac adeiladau amaethyddol er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gamystumio'r cyfrifiad dosrannu.</p> <p>Caiff gwaith Byrddau Draenio Mewnol ei hunan-ariannu, gan fod y praeseptau yn helpu i dalu am y gwaith rheoli a'r adnoddau cysylltiedig. Bydd y newidiadau arfaethedig yn y Bill yn ei gwneud yn symlach ac yn decach drwy gywiro'r mesurau/cyfrifiadau cynharach nad oeddent yn ymdrin â thir nad yw'n amaethyddol.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 4. Mae'n rhaid i'r Gweinidog roi diweddariad i'r Senedd cyn y ddadl ar y</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae trafodaethau â Defra yn parhau a byddaf yn rhoi diweddariad i'r Senedd ar y cynnydd a wnaed ar ôl toriad yr haf.</p>

<p>Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, ar y cynnydd a wnaed wrth sicrhau diwygiad i Gymal 24 i ddarparu ar gyfer cydweithio rhwng yr OEP ac unrhyw gorff llywodraethu cyfatebol yng Nghymru. Os na ellir sicrhau diwygiad i Gymal 24, mae'n rhaid i'r Gweinidog nodi pa fesurau a gaiff eu cyflwyno i sicrhau cydweithio rhwng cyrff yng Nghymru a Lloegr/y DU.</p>	<p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog bennu amserlen ar gyfer sefydlu mesurau llywodraethu amgylcheddol interim ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben ac ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Y bwriad yw y bydd y mesurau interim ar waith erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu. Fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod proses gŵynion ar waith, a fydd yn darparu tudalen we benodol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol a ffurflen gwyno. Caiff unrhyw gŵynion a gyflwynir eu cydnabod, eu cofnodi a'u cynnwys mewn adroddiad blynyddol.</p> <p>Mae'n fwriad gennyf hefyd roi proses ar waith i'w gwneud yn bosibl i bob cwyn gael ei hasesu'n annibynnol a, lle yr ystyrir ei bod yn fater brys neu ddifrifol, ei huwchgwyfeirio. Unwaith eto, ein nod yw rhoi hyn ar waith erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu, ond bydd hyn eto yn ddarostyngedig i godi'r cyfyngiadau presennol ar benodiadau cyhoeddus o ganlyniad i COVID-19.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad y grŵp rhanddeiliaid a orchmynnwyd ganddi i ystyried trefniadau llywodraethu amgylcheddol yn y dyfodol yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y grŵp.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Dylai adroddiad y rhanddeiliaid gael ei gyhoeddi ynghyd â dadansoddiad opsiynau pellach wedi'i gostio pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau yn yr hydref.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 7.</p>	<p>Derbyn</p>

<p>Dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau bod Cynllun Dychwelyd Ernes Llywodraeth Cymru yn gymwys i'r amrywiaeth ehangaf o gynwysyddion fel na roddir unrhyw gyfyngiadau ar faint na math y cynwysyddion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun.</p>	<p>Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i ddatblygu cynigion fel sail i ymgynghoriad pellach i lywio dyluniad terfynol y cynllun. Disgwylir i'r prosiect hwn gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2021. Bwriedir i'r ymgynghoriad nodi meintiau cynwysyddion a'r mathau o ddeunyddiau y bydd y Cynllun Dychwelyd Ernes yn eu cwmpasu. Rwy'n cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor y dylai hyn gwmpasu amrywiaeth eang o ddeunyddiau a meintiau poteli.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor ar y gwaith sy'n cael ei wneud i asesu'r sail dystiolaeth ar gyfer treth neu ffi a godir ar blastigau untro.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cyn COVID-19, roedd cefnogaeth gynyddol gan y cyhoedd i lywodraethau weithredu yn erbyn eitemau plastigau untro, lleihau deunydd pecynnu a hyrwyddo cynhyrchion amldro. Er bod hyn yn debygol o fod yn wir o hyd, mae rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod pandemig COVID-19 wedi creu pryderon am ddiogelwch defnyddio cynhyrchion amldro, yn arbennig cwpanau amldro, ac mae rhai manwerthwyr ar y stryd fawr yn rhoi gwaharddiad dros dro ar ddefnyddio cwpanau amldro.</p> <p>Rydym yn cydnabod nad busnesau yn unig a fydd yn cael eu herio – gallem weld newidiadau yn ymddygiad prynwyr wrth i gyfraddau cyflogaeth ostwng ac incwm aelwydydd leihau o ganlyniad i'r effaith sylweddol y mae COVID-19 wedi'i chael ar yr economi. Efallai y bydd peth amser cyn y bydd defnyddwyr mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau prynu premiwm neu ddewisiadau mwy cynaliadwy.</p> <p>Bydd angen ymateb cytbwys i'r gwrthdaro rhwng pryderon cyhoeddus am hylendid yn y byrdymor a'r nod tymor hwy o fynd i'r afael â'r llygredd a greir gan blastigau untro diangen. Yn y pen draw, ein nod fydd canolbwyntio ar hybu ein huchelgeisiau hirdymor o ddiogelu'r amgylchedd, yn unol â'n hamcanion ar gyfer Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Mae'r gwaith i asesu'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch codi treth neu ffi bosibl ar gwpanau untro yn parhau, a bydd yn ystyried ein hegwyddorion o ran polisi treth, yn ogystal ag effeithiau tymor hwy posibl COVID-19 ar ymddygiadau defnyddwyr a'r diwydiannau dan sylw.</p> <p>Byddai angen mynd ati'n ofalus i gydgyssylltu unrhyw fesur treth neu ffi a godir ar gwpanau untro â mentrau ehangach er mwyn sicrhau bod y newidiadau ymddygiadol bwriadedig yn cael eu hannog heb fod hynny'n rhoi baich gormodol ar fusnesau. Mae hyn yn cynnwys Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, y Cynllun Dychwelyd Ernes, gwaharddiadau ar eitemau plastig untro penodol sydd ar y gweill (a fydd yn cynnwys cwpanau polystyren</p>

	<p>ymledol ac allwthiol), yn ogystal â chynigion Llywodraeth y DU ar gyfer treth pecynnu plastig. Disgwylir ymgynghoriadau pellach ar y meysydd hyn yn fuan. Bydd yn bwysig ystyried y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymarferion hyn.</p> <p>Daeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, <i>Mwy nag Ailgylchu</i> i ben ym mis Ebrill. Roedd yn ceisio barn ar gynigion i godi treth neu ffi ar gwpanau plastig a chynwysyddion bwyd untro yng Nghymru. Mynegwyd llawer o ddi-ddordeb yn y ffordd orau o ddefnyddio ein pwerau cyllidol. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wrthi'n cael eu hadolygu a chaiff crynodeb o'r ymgynghoriad ei gyhoeddi yn ddiweddarach yr haf hwn.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog nodi amserlen glir ar gyfer cyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a chynlluniau a mesurau dychwelyd ernes mewn perthynas â phlastigau untro.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mewn perthynas â'r Cynllun Dychwelyd ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu, mae'r gwaith o weithredu'r ddau gynllun yn dibynnu ar Senedd y DU yn pasio'r cymalau perthnasol ym Mil Amgylchedd y DU. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol erbyn mis Tachwedd 2020, yn ddarostyngedig i'r oedi presennol o ganlyniad i COVID-19.</p> <p>Yn y cyfamser, rydym yn gweithio i ddatblygu cynigion manwl i'w cynnwys mewn ymgynghoriad pellach er mwyn nodi'r opsiwn/opsiynau a ffeirir ar gyfer y ddau gynllun. Disgwylir i'r prosiect hwn gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2021.</p> <p>Er mwyn paratoi ar gyfer ymgynghoriad, rydym wrthi'n adolygu'r amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu'r ddau gynllun. Mae hyn yn dibynnu ar ffactorau fel pasio'r is-ddeddfwriaeth sy'n sefydlu gweinyddwyr y cynlluniau gofynnol, y seilwaith casglu a datblygu'r systemau TGCh cefnogol. Rydym yn bwriadu cynnwys amserlen weithredu arfaethedig amlinellol yn yr ymgynghoriad.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog nodi'n glir sut y defnyddir darpariaethau'r Bil i weithredu'r cynigion yn ymgynghoriad "Mwy nag Ailgylchu" Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Daeth ymgynghoriad Mwy nag Ailgylchu i ben ar 24 Ebrill. Roedd yr ymgynghoriad a 40 o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled y wlad wedi ymgysylltu â rhyw 1,000 o ddinasyddion a rhanddeiliaid. Roedd gan yr ymgynghoriad nod syml a chlir, sef symud Cymru tuag at economi fwy cylchol lle rydym ond yn defnyddio ein cyfran deg o adnoddau, yn defnyddio adnoddau am gyhyd â phosibl ac yn osgoi gwastraff. Mae'r Bil yn darparu</p>

	<p>pwerau a fydd yn ei gwneud yn bosibl i roi camau gweithredu allweddol ar waith, wedi'u cwmpasu gan '<i>Mwy nag Ailgylchu</i>', yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr. Bydd hyn yn cefnogi amcanion y strategaeth yn y dyfodol o osgoi gwastraff a pharhau i ddefnyddio adnoddau am gyhyd â phosibl, a'n nod fel Llywodraeth o fod y gorau yn y byd o ran ailgylchu. Bydd pwerau eraill yn y Bil hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer nifer o gamau gweithredu allweddol eraill yn Mwy nag Ailgylchu, gan gynnwys cymhwyso Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr at gynhyrchion eraill a mathau eraill o wastraff, ei gwneud yn ofynnol i dracio gwastraff, ailddosbarthu gwastraff bwyd, labelu amgylcheddol ar gynhyrchion a chodi tâl am becynnu untro problematig.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dull gweithredu o leihau gwastraff a llygredd plastig, sy'n seiliedig ar y model a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai'r dull gweithredu hwn gynnwys targed cyffredinol, targedau interim a gofynion adrodd.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Ymhlith deunyddiau eraill, mae Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd yn targedu cyfran fawr o blastig. Nod y ddau gynllun yw pennu targedau ailgylchu statudol ar gyfer y rhai y mae rhwymedigaeth arnynt o dan y cynlluniau. Bwriedir i'r cynlluniau weithredu ledled y DU, ond adroddir ar gyfraddau casglu deunyddiau ac ailgylchu ar lefel y gwledydd unigol – felly bydd modd olrhain llwyddiant y ddau gynllun ar sail Cymru gyfan.</p> <p>O ran y cynllun ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd, yr opsiwn a ffefrir gennym ar hyn o bryd yw pennu cyfres o dargedau sy'n cynyddu dros amser wrth i'r cynllun ymsefydlu a chael ei dderbyn yn eang. Yn ogystal, bydd pecynnu sy'n destun ffi amrywiadwy neu wedi'i modiwlleiddio yn cymell cynhyrchwyr i ddylunio deunydd pecynnu sy'n haws ei ailgylchu ac yn llai gwastraffus. Rhoddir mwy o fanylion am y ffordd y bydd y targedau statudol yn gweithio yn yr ail ymgynghoriad ar y ddau gynllun, y bwriedir ei gyhoeddi yn gynnar yn 2021.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog nodi'n glir amserlenni bwriadedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y papur gwyn ar y Bil Aer Glân a chyflwyno'r system rhestru sy'n deillio o Ran o Atodlen 12 o Fil y DU.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lansio a chwblhau ymgynghoriad Papur Gwyn ar gynigion ar gyfer y Bil Aer Glân ar gyfer Cymru yn ystod tymor presennol y Cynulliad.</p> <p>O ran y rhestru ar gyfer cofnodi tanwyddau cymeradwy a dosbarthau esempt o leoedd tân, mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn i benderfynu pryd y daw'r ddarpariaeth i rym. Fodd bynnag, o ystyried yr angen i sicrhau y gall gweithgynhyrchwyr werthu eu cynhyrchion ar y farchnad yn ddirwystr, gan gynnwys yr angen i gynyddu hyder defnyddwyr drwy sicrhau bod mwy o gynhyrchion yn dod i'r farchnad yn gynt, disgwylir i'r rhestru</p>

	<p>cyhoeddedig gael eu datblygu a'u cyflwyno o fewn chwe mis i'r adeg y caiff y Bil ei ddeddfu.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog ailddatgan ei hymrwymiad i sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar y rheoliadau arfaethedig a chyn gwneud cyfarwyddiadau sy'n deillio o ddarpariaethau Rhan 5 o Fil y DU.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i ymgynghori â rhanddeiliaid ar reoliadau sy'n deillio o Ran 5 o'r Bil.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog geisio diwygiad i Gymal 82 i geisio cyngor gwyddonol cyn arfer y pwerau a nodir yn y cymal hwnnw. Os nad oes modd cyflawni'r diwygiad, dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau y dylai Llywodraeth Cymru geisio cyngor gwyddonol cyn arfer y pwerau.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Mae Adran 82 yn adlewyrchu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol (A81)</p> <p>Yn unol â'r Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n gywir ac yn briodol â'r rhai y mae'n debygol y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt, a'r rhai y bydd ganddynt fuddiant yn ei heffaith gyffredinol, cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil. Mae hyn yn cynnwys gofriad i ymgynghori â'r rhai sydd â dylanwad yn y maes, cymunedau penodol a/neu sefydliadau.</p> <p>Mae Egwyddorion Gunning ar ymgynghori hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â'r holl bartïon â fuddiant ac i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud ar sail rhesymeg a thystiolaeth. Mae hyn yn ddigon i sicrhau'r gofyniad i gael cyngor gwyddonol penodol.</p> <p>Gallaf, felly, sicrhau'r Pwyllgor y caiff cyngor gwyddonol ei ystyried yn drylwyr fel rhan o arferion gweithredol Llywodraeth Cymru ac nad oes angen pennu'r gofyniad hwn mewn cyfraith.</p> <p>Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn</p>
<p>Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog nodi pa ddulliau sydd ar</p>	<p>Derbyn.</p> <p>Mae rheolau cyffredin yn galluogi masnach lefn mewn cemegion</p>

waith neu y bydd eu hangen i sicrhau y gall REACH barhau mewn modd cyson ym mhob un o genhedloedd cyfansoddol y DU yn y dyfodol.

a chynhyrchion sy'n deillio o gemegion, yn y DU a chyda'n cymdogion yn Ewrop. Mae hefyd yn lleihau'r costau cysylltiedig i fusnesau ac asiantaethau rheoleiddiol. Am y rhesymau hyn, fel rhan o'n blaenoriaethau negodi ar gyfer y gydberthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, rydym wedi galw ar Lywodraeth y DU i negodi aelodaeth barhaus o'r Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd fel rhan o gytundeb masnach cynhwysfawr.

Heb gytundeb o'r fath, erys yn bwysig cadw i fyny â'r cynnydd a wneir yn yr UE er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau a berir gan gemegion peryglus i iechyd dynol a'r amgylchedd, hyd yn oed os nad ydym yn cyd-fynd â'r UE ar bob penderfyniad rheoleiddio. Dylid nodi y bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn ddarostyngedig i reolau'r UE ar gemegion o dan Brothocol Gogledd Iwerddon, yn y lle cyntaf o leiaf.

Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol parhau i fonitro'r penderfyniadau a wneir yn yr UE wrth i ni wneud penderfyniadau ar y cyd â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban mewn perthynas â chemegion ar y farchnad ym Mhrydain o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Rydym wedi cydweithio â'r gweinyddiaethau eraill i gyflwyno REACH i gyfraith y DU mewn ffordd sy'n ffafrio proses o wneud penderfyniadau ar y cyd yn hytrach nag ar wahân. Mae hyn yn sicrhau'r cysondeb mwyaf ledled Prydain, ac ar yr un pryd yn cadw'r hawl i gymryd ein camau ein hunain, lle bo hynny'n gwbl angenrheidiol yn ein barn ni, er mwyn diogelu iechyd dynol a'r amgylchedd yng Nghymru.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r dull gweithredu hwn ar waith eisoes i raddau healeth, a hynny ar ffurf cyfraith yr UE a ddargedwir. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau eraill i roi elfennau anneddfwriaethol fframwaith rheoleiddiol cyffredin ar gemegion ar waith. Bydd y pwerau yn y Bil hwn sy'n ymwneud â REACH yn rhoi'r hyblygrwydd i'r fframwaith newydd fireinio deddfwriaeth ddomestig i weddu i ba amgylchiadau bynnag y byddwn yn eu hwynebu ar ddiwedd y cyfnod gweithredu presennol.

Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn

